COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO A GYNHALIWYD YN HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB DYDD MERCHER, 26 GORFFENNAF 2023, AM 10:00

Presennol:

G Chapman – Cadeirydd (aelod lleyg)

| | | | |
|---|---|---|---|
| S J Bletsoe | C Davies | RM Granville | S J Griffiths |
| M L Hughes | MJ Williams | | |

Aelodau Lleyg:

A Bagley
B Olorunnisola

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid |
| Nigel Smith | Rheolwr Grŵp – Prif Gyfrifydd |
| Rachel Freitag | Archwilio Cymru |
| Simon Roberts | Uwch Ymchwilydd Twyll |
| Eilish Thomas | Rheolwr Cyllid – Rheoli Ariannol a Chau |
| Andrew Wathan | Pennaeth Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol |
| Joan Davies | Dirprwy Pennaeth Gwasanaeth Archwilio Rhanbarthol |
| Alex Rawlin | Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Stephen Griffiths | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |

86. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

A Williams

87. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Dim

88. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo Cofnodion cyfarfod 1 Mehefin 2023 fel cofnod gwir a chywir.

89. COFNOD GWEITHREDU’R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cyflwynwyd yr adroddiad hwn gan Uwch Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau. Ei ddiben oedd rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Aelodau am Gofnod Gweithredu’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

PENDERFYNWYD:

Bod y Pwyllgor yn nodi’r Cofnod Gweithredu.

90. DATGANIAD DRAFFT O GYFRIFON 2022-23.

Cyflwynwyd yr adroddiad hwn gan Reolwr y Grŵp - y Prif Gyfrifydd a'i ddiben oedd cyflwyno Datganiad o Gyfrifon 2022-23 oedd heb eu harchwilio, sy'n gysylltiedig yn Atodiad A, i'w nodi.

Roedd y pwyntiau allweddol fel a ganlyn:

- Cwblhawyd datganiad drafft y cyfrifon ar gyfer 2022–23 yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.
- Mae'r cyfrifon drafft bellach yn destun archwiliad gan Archwilio Cymru a chaiff y cyfrifon archwiliedig terfynol eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w cymeradwyo yn yr hydref.

Yn y drafodaeth a ddilynodd, gwnaeth aelod ddau awgrym ar gyfer datganiad y flwyddyn nesaf:

- Roedd angen cael adran ehangach a manylach ar y ffordd yr ydym yn mynd i'r afael â chynigion Datgarboneiddio 2030; a'i
- fod yn gwerthfawrogi'r gwelliannau i'r balansau yn natganiadau'r cronfeydd wrth gefn, ond roedd yn credu bod mwy y gellid ei wneud o ran eglurder ar gyfer pobl nad oeddent yn ariannol. Ar dudalen 38 yn yr adroddiad, roedd dadansoddiad hwylus o'r cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio, ond credai fod angen mwy o esboniad ar y termau a ddefnyddiwyd ynddo.

Diolchodd aelod arall i'r swyddogion am y sesiwn friffio werthfawr ar y Datganiad o Gyfrifon. Ychwanegodd fod angen diwygio'r cyfeiriad yn y ddogfen at aelodau annibynnol Llynfi fel plaid wleidyddol. Grŵp gwleidyddol ydyn nhw ac nid plaid wleidyddol.

PENDERFYNWYD:

Bod y Pwyllgor yn nodi Datganiad o Gyfrifon 2022-23 heb eu harchwilio yn Atodiad A.

91. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2022- 23

Cyflwynwyd yr adroddiad hwn gan y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid a'i ddiben oedd cyflwyno Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022- 23 i'r Aelodau i'w gymeradwyo a'i gynnwys o fewn Datganiad Cyfrifon 2022-23 heb eu harchwilio.

Roedd y pwyntiau allweddol fel a ganlyn:

- Mae llywodraethu corfforaethol da yn gofyn am gyfranogiad gweithredol Aelodau a swyddogion ar draws y Cyngor. Adolygir y trefniadau hyn yn flynyddol a defnyddir y canfyddiadau i ddiweddaru'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
- Mae hyn yn gymorth i sicrhau gwelliant parhaus yn niwylliant llywodraethu corfforaethol y Cyngor. Mae cynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn Natganiad y Cyfrifon yn rhoi gwerthusiad cyffredinol o'r rheolaethau sydd ar waith i reoli risgiau allweddol y Cyngor ac yn nodi lle mae angen gwneud gwelliannau.
- Roedd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft ar gyfer 2022-2023 ynghlwm yn Atodiad A. Mae'r Datganiad hwn yn disgrifio i ba raddau y mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i God Llywodraethu Corfforaethol a gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018 ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023.

- Mae hefyd yn egluro sut mae'r Cyngor wedi ymateb i faterion llywodraethu a nodwyd yn ystod 2022-23 a’r camau gweithredu sydd i gael eu cymryd yn ystod 2023-24 yn dilyn adolygiad blynyddol o'r Fframwaith Llywodraethu.
- Mae’r Pwyllgor statudol hwn yn rhoi sicrwydd annibynnol ar amgylchedd rheolaeth fewnol y Cyngor.
- Cyfeirir at waith a wneir gan reoleiddwyr allanol fel Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru wrth iddynt wneud gwaith ar ein systemau rheoli.
- Mae'r Cyngor yn wynebu ystod o risgiau fel y gellid disgwyl drwy'r ystod eang o wasanaethau y mae'n eu darparu a'r gweithgareddau y mae'n ymwneud â hwy.
- Edrychir ar risgiau o safbwynt y Gwasanaeth ac o safbwynt y Cyngor cyfan sy'n sicrhau bod y risgiau allweddol yn cael eu distyllu yn yr Asesiad Risg Corfforaethol.
- Mae'r Asesiad Risg yn nodi sut mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â'r risgiau hyn a'r camau lliniaru y bydd yn eu rhoi ar waith i'w lleihau. Caiff ei adolygu a'i herio'n rheolaidd gan yr uwch reolwyr a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- Mae gan y Cyngor drefniadau cadarn ar waith ar gyfer rheolaeth ariannol effeithiol drwy weithdrefnau cyfrifyddu’r Cyngor, systemau ariannol allweddol a Rheolau’r Gweithdrefnau Ariannol.
- Cafodd y Cyngor farn archwilio ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2021-2022 ac mae Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol wedi rhoi asesiad o sicrwydd rhesymol i’r Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-2023.
- Mae Adran 5 o’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y materion a amlygwyd yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2021-2022 a’r materion a nodwyd ar gyfer blwyddyn 2022-2023.
- Mae’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol mewn ffurf drafft ar hyn o bryd a bydd yn cael ei adolygu gan Archwilio Cymru fel rhan o’r gwaith a wneir ar Ddatganiad y Cyfrifon ar gyfer 2022-2023. Caiff fersiwn derfynol o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ei chynnwys pan gyflwynir Datganiad terfynol y Cyfrifon i'r pwyllgor hwn.

Cododd aelod dri mater ynghylch yr adroddiad:

- A fyddai’n bosibl cael adolygiadau mwy rheolaidd o’r Cyfansoddiad i gytuno ar newidiadau bychain, megis rheolau ynghylch hyd cyfarfodydd a seibiannau yn ystod cyfarfodydd.
- Roedd y berthynas rhwng CBS Pen-y-bont ar Ogwr a’r Cynghorau Tref a Chymuned yn aneglur o ran gorfodi'r Cod Ymddygiad a chynorthwyo i reoli ymddygiad da.
- Roedd yn croesawu mabwysiadu strategaeth gaffael gymdeithasol gyfrifol ond bod angen ymrwymiad i strategaeth gaffael werdd os yw'r Cyngor am gyrraedd ei dargedau datgarboneiddio ar gyfer 2030.

Mewn ymateb i'r ddau fater cyntaf, awgrymodd y Cadeirydd mai mater i'r Swyddog Monitro oeddent a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Gyda golwg ar yr ail un, yn arbennig, awgrymwyd y gallai'r Swyddog Monitro baratoi nodyn i egluro'r sefyllfa i'r aelodau.

O ran y trydydd mater, awgrymodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid y gallai fynd ag ef i ffwrdd, edrych arno, a'i drafod gyda'r tîm caffael. Ymatebodd yr aelod drwy awgrymu ei fod hefyd yn rhywbeth i'r Cabinet / Bwrdd Rheoli Corfforaethol (CMB) er enghraifft, oherwydd bod angen newid y ffordd y mae CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn meddwl am faterion gwyrdd a'u sefydlu ym mhob maes gweithgaredd.

Diolchodd Aelod Lleyg i awduron yr adroddiad am ddogfen gynhwysfawr iawn oedd wedi'i rhoi at ei gilydd yn dda ac ychwanegodd dri awgrym, gyda'r darllenydd allanol mewn golwg:

- Yn hytrach nag awgrymu "Mae Archwilio Mewnol wedi gweithio o bell, gan gynnal archwiliadau a chael tystiolaeth yn ddigidol yn ogystal ag wyneb yn wyneb lle bo'n briodol" (t.139), byddai'n well dweud eu bod wedi bod yn gweithio'n hybrid.
- Ar waelod yr un dudalen, mae'n sôn am weithredoedd sydd ar gamau amrywiol. Credai y byddai'n well dweud nad oes unrhyw gamau sylweddol hwyr.
- Lle y trafodir yr archwiliadau sydd wedi cael eu gohirio, mae'n debyg y byddai'n gryfach pe gallem ddweud bod yr archwiliadau hynny a ohiriwyd wedi cael eu cymeradwyo mewn rhyw fath o fforwm, a hefyd nad oeddent yn cael eu hystyried yn arwyddocaol yn y cyd-destun cyffredinol.

Dychwelodd aelod at fater y Cyfansoddiad a gofynnodd yn benodol a oedd modd gwneud adolygiad o'r Cyfansoddiad yn ofynnol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Awgrymodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid, y gallai ychwanegu hyn at y materion cyfansoddiadol a godwyd gan yr aelod arall yn gynharach yn y cyfarfod a'u trafod gyda'r Swyddog Monitro. Ychwanegodd y Cadeirydd ei fod yn meddwl mai mater i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd oedd hwn ac y byddai adolygu'r Cyfansoddiad yn flynyddol yn dasg enfawr.

Ychwanegodd yr aelod a gododd y pwyntiau cychwynnol am y cyfansoddiad mai'r hyn yr oedd yn edrych amdano oedd proses o welliant parhaus.

<u>PENDERFYNWYD:</u>

Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft yn Atodiad A ac yn cytuno i'w gynnwys yn Natganiad Cyfrifon 2022-23 oedd heb eu harchwilio.

92. <u>FFURFLEN HARBWR PORTHCAWL 2022-23</u>

Cyflwynwyd yr adroddiad hwn gan Reolwr y Grŵp - y Prif Gyfrifydd a'i ddiben oedd cyflwyno Datganiad Cyfrifon 2022-23 Harbwr Porthcawl oedd heb eu harchwilio i'w gymeradwyo, oedd yn gysylltiedig yn Atodiad A.

Roedd y pwyntiau allweddol fel a ganlyn:

- Mae ffurflen Harbwr Porthcawl wedi cael ei chwblhau a'i hadolygu gan Archwilwyr Mewnol.
- Cwblheir y ffurflen yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.
- Cyrhaeddodd yr harbwr sefyllfa gytbwys ar 31 Mawrth 2023.
- Mae'n ofynnol i'r ffurflen gael ei llofnodi gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio cyn ei chyflwyno i Archwilio Cymru ar gyfer archwiliad blynyddol y Datganiad.

Yn y drafodaeth a ddilynodd, gwnaeth yr aelodau sylwadau fel a ganlyn:

- Gofynnodd Aelod am wybodaeth am faint ased Harbwr Porthcawl. Nododd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid y byddai'n dod o hyd i'r wybodaeth ac yn ei throsglwyddo i'r aelod.
- Tynnodd Aelod Lleyg sylw at y tabl yn Atodiad A ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol nad oedd yn ymddangos fel pe bai wedi cael ei gwblhau. Mewn

ymateb, cadarnhaodd y Rheolwr Grŵp - Prif Gyfrifydd y dylid bod wedi cwblhau'r rhain.

- Gofynnodd aelod am adran y Dyledwyr a'r Credydwyr o'r ffurflen a'r ffaith fod ganddynt yr un ffigur (£39,893) ynddynt. Dilynodd trafodaeth ynghylch confensiynau ac arferion cyfrifyddu yn y maes hwn.
- Gofynnodd aelod, o ystyried bod Harbwr Porthcawl yn cael ei redeg ar sail net, p'un a oedd rhaid, pe digwyddai bod gwarged, a fyddai'n rhaid ei gadw o fewn y cyfrif penodol hwn. Roedd y Prif Swyddog-Cyllid, Perfformiad a Newid o'r farn ei fod yn hunangynhwysol ond dywedodd y byddai'n mynd â'r cwestiwn ac yn dod yn ôl at yr aelod gydag ateb pendant.

PENDERFYNWYD:

Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo Datganiad o Gyfrifon 2022-23 oedd heb eu harchwilio yn Atodiad A.

93. ALLDRO RHEOLAETH Y TRYSORLYS 2022-23

Cyflwynwyd yr adroddiad hwn gan y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid a'i bwrpas oedd diweddaru aelodau ar sefyllfa Alldro gweithgareddau Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2022-2023, y dangosyddion ar gyfer yr un flwyddyn ac i dynnu sylw at gydymffurfiad â pholisïau ac arferion y Cyngor.

Roedd y pwyntiau allweddol fel a ganlyn:

- Cymeradwywyd Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2022-2023 gan y Cyngor ar 23 Chwefror y llynedd.
- Mae'r adroddiad yn amlinellu'r cyd -destun economaidd y cynhaliwyd gweithgaredd Rheoli'r Trysorlys ynddo y llynedd. Roedd y materion yn cynnwys:
    - Roedd y rhyfel yn yr Wcráin wedi cadw cyfraddau chwyddiant byd-eang yn uchel.
    - Nodweddwyd y cefndir economaidd ym mis Ionawr i Fawrth 2023 gan brisiau uchel ynni a nwyddau, chwyddiant uchel sydd wedi effeithio ar gyllidebau a gwariant teuluoedd. Cododd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr i 10.1% yn y 12 mis hyd at fis Mawrth 2023.
    - Cynyddwyd cyfraddau llog nifer o weithiau yn ystod y flwyddyn i geisio ffrwyno chwyddiant. Dechreuodd y gyfradd banc y flwyddyn ar 0.75% a chynyddodd 8 gwaith yn ystod y flwyddyn i 4.25% ar 31 Mawrth 2023.
- Dangosir crynodeb o weithgareddau Rheoli'r Trysorlys yn ystod y llynedd yn Atodiad A. Mae Tabl 1 yn yr adroddiad yn crynhoi sefyllfa'r Cyngor o ran Dyled a Buddsoddiadau Allanol. I grynhoi:
    - Ni chymerwyd unrhyw ddyled hirdymor yn ystod y flwyddyn.
    - Nid aildrefnwyd dyled yn ystod y flwyddyn gan nad oedd unrhyw fudd ariannol i'r Cyngor o wneud hyn. Caiff hyn ei adolygu'n gyson yn ystod y flwyddyn gyfredol.
    - Cafwyd cynnydd bychan yn nifer y benthyciadau di-log Salix sydd gan y Cyngor.
    - Cyfanswm y benthyciadau allanol y mae'r Cyngor yn ei reoli oedd £99.93 miliwn ar ddiwedd Mawrth 2023.
    - Balans y buddsoddiadau ar ddiwedd y flwyddyn oedd £74.5 miliwn sy'n ostyngiad o £10 miliwn o'i gymharu â Mawrth 2022.

- Mae'r incwm sy'n cael ei ennill drwy'r buddsoddiadau yn cynyddu wrth i'r gyfradd sylfaenol gynyddu.
- Cynyddodd y gyfradd llog ar gyfartaledd o 0.43% yn 2021-2022 i 2.55% yn 2022-2023.
- Wrth fuddsoddi arian y Cyngor, rhoddir sylw dyledus i sicrhau diogelwch a hylifedd y buddsoddiadau cyn edrych am y gyfradd enillion uchaf.

Yn y drafodaeth a ddilynodd, gwnaeth yr aelodau sylwadau fel a ganlyn:

- Y byddai'r adroddiad yn well gyda chrynodeb o'r uchafbwyntiau ac ychydig o graffiau. Credai y byddai hyn yn cynorthwyo trigolion i geisio deall dull y Cyngor o Reoli’r Trysorlys. Mewn ymateb, nododd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid fod hwn yn faes technegol iawn a bod rhai pethau y mae'n rhaid adrodd amdanynt mewn ffyrdd penodol i gydymffurfio â'r gofynion yn y maes ond nid oedd unrhyw reswm pam na ellid paratoi crynodebau.

- P'un a oedd cyfle i setlo dyled y Fenter Cyllid Preifat (PFI) sy'n gysylltiedig â'r ysgol uwchradd ym Maesteg o gronfeydd wrth gefn. Mewn ymateb, awgrymodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid y byddai'n rhaid iddi edrych ar fanylion y cytundeb penodol hwnnw i weld a yw hynny'n bosibilrwydd ai peidio a hefyd, o ystyried y ffordd y mae cyfraddau llog yn newid, p'un a oedd manteision neu beidio i ni o’i ad-dalu. Byddai'n cadarnhau a oedd hyn yn bosibl ai peidio.

- Roedd yr hyfforddiant a gynigiwyd gan swyddogion i helpu’r aelodau i ddeall adroddiadau o'r math hwn yn hynod werthfawr. Mewn ymateb, nododd y Cadeirydd fod swyddogion yn neilltuo llawer iawn o amser ar gyfer hyfforddiant ond os oedd angen hyfforddiant pellach, gellid ei gynnal. Ychwanegodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid y byddai'n ddefnyddiol cynnig hyfforddiant gloywi yn flynyddol ar gyfer materion fel Rheoli’r Trysorlys gan nad yw aelodau'n derbyn yr adroddiadau yn aml iawn.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Pwyllgor

- yn nodi gweithgareddau blynyddol y trysorlys ar gyfer 2022-23.
- yn nodi gwir Ddangosyddion Rheoli’r Trysorlys ar gyfer 2022-23 yn erbyn y rhai a gafodd eu cymeradwyo yn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2022-23.

94. <u>ADRODDIAD TWYLL CORFFORAETHOL BLYNYDDOL 2022- 23</u>

Cyflwynodd yr Uwch Ymchwilydd Twyll yr adroddiad. Pwrpas yr adroddiad oedd rhoi i’r Aelodau grynodeb o'r camau a gymerwyd yn erbyn twyll a hefyd rhoi diweddariad ar ymarferiad y Fenter Twyll Genedlaethol.

Roedd y pwyntiau allweddol fel a ganlyn:

- Rhoddai Adran 3 rywfaint o wybodaeth fanwl mewn perthynas â'n gwaith mewn cysylltiad â'r Fenter Twyll Genedlaethol.
- Manylai Adran 4 ar y gwaith yn erbyn twyll a llygredd a wnaed a rhoddai hefyd wybodaeth fanwl am ymchwiliadau i Dwyll Lleihau’r Dreth Gyngor gan gynnwys arbedion ariannol a wnaed a'r sancsiynau llwyddiannus a ddeilliodd o hynny yn cynnwys erlyniadau a chosbau ariannol. Roedd rhywfaint o fanylion hefyd yn yr adran ynghylch gwaith ar gamddefnydd o fathodynnau glas ac unrhyw ymchwiliadau mewnol a gynhaliwyd gan yr archwilwyr mewnol yn bennaf.

- Rhoddai Atodiad 1 wybodaeth am y mesurau parhaus y mae CBSP yn cynnig eu cymryd dros y tymor canolig i wella ei wytnwch ymhellach yn erbyn twyll, llwgrwobrwyo a llygredd.

Yn y drafodaeth a ddilynodd, cwestiynodd aelod agwedd y Cyngor tuag at dwyll a chamgymeriadau. Awgrymodd na chafodd hyn ei gymryd o ddifrif, ei fod yn oddefol, ac nad oedd digon o ganolbwyntio arno. Awgrymodd y gallai buddsoddiad bach yn y maes hwn (gan gynnwys gweithio gyda Data Cymru ar gloddio data) arwain at fudd ariannol net sylweddol i'r Cyngor.

Nododd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid eu bod wedi edrych mewn rhai meysydd eraill a oedd cynllun busnes i fuddsoddi yn y maes hwn ar hyd llinellau cynnig buddsoddi i arbed. Awgrymodd fod hyn yn rhywbeth y gellid ei gymryd i ffwrdd ac edrych arno.

Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol (RIAs) yr aelodau am y Fenter Twyll Genedlaethol, ymarferiad ar draws y DU sy'n ymdrin â dros 1200 o sefydliadau sector cyhoeddus (Awdurdodau Lleol eraill, yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), y GIG ac Ymddiriedolaethau, yr Heddlu a Chymdeithasau Tai ac yn y blaen) o ran ymarferiad cydweddu data sy'n helpu i atal a chanfod twyll. Byddai unrhyw gydweddiadau fyddai’n codi ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr yn cael eu hystyried a'u cymryd o ddifrif.

Tynnodd aelod sylw at dri mater:

- Gostyngiad y Person Sengl a'r amgylchiadau a allai arwain at honiadau o dwyll.
- Twyll Lleihau’r Dreth Gyngor, yn enwedig yr achosion nad ymchwiliwyd iddynt ac a ydynt yn cael eu nodi er mwyn cyfeirio atynt yn y dyfodol.
- Rheoliadau Cynlluniau Lleihau’r Dreth Gyngor (Canfod Twyll a Gorfodi) (Cymru) 2013, lle mae'r dirwyon sydd ar gael yn gymharol fychan a dylid eu hadolygu.

Mewn ymateb i sylwadau ynghylch y cynllun gweithredu, awgrymodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid y gellid edrych arno eto, yn enwedig o gwmpas targedau. Awgrymodd hefyd fod angen i swyddogion roi mwy o wybodaeth mae’n debyg yn yr adroddiad fel bod aelodau yn cael gwell syniad o'r gwaith sy'n digwydd yn y gwasanaeth.

Tynnodd aelod arall sylw at reoli contractau a'r potensial i adfer arian. Mewn ymateb, awgrymodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid, er nad twyll oedd hyn o reidrwydd, bod angen i bobl wybod y byddai'r Cyngor yn cymryd y camau angenrheidiol, fel hawlio arian yn ôl, pe bai rhywun wedi mynd y tu allan i gontract neu heb berfformio fel oedd yn ofynnol.

Yn olaf, awgrymodd aelod, fel rhywun oedd yn delio â'r DWP yn ddyddiol, y byddai'n ddefnyddiol gwahodd rhywun o'r adran i gynorthwyo’r Pwyllgor i ddeall eu hymchwiliadau i dwyll a amheuir.

Awgrymodd y Cadeirydd fod hyn yn werth ei ddilyn gan y gallai'r wybodaeth am yr hyn sy'n digwydd unwaith y bydd atgyfeiriadau wedi cael eu gwneud o Ben-y-bont ar Ogwr i system y DWP fod yn ddefnyddiol.

Awgrymodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid y byddai'n cysylltu â’r DWP i weld a fyddent yn barod i gynnal seminar anffurfiol ond atgoffodd yr aelodau na fyddent yn gallu siarad am achosion unigol. Awgrymodd y gallent yn sicr siarad am beth fyddai eu proses a sut y byddent yn delio â materion.

Awgrymodd y Cadeirydd, yn dilyn sylwadau gan aelod am Reoliadau Cynlluniau Gostyngiad Treth y Cyngor (Canfod Twyll a Gorfodi) (Cymru) (Cymru) 2013, y dylai rhywun gysylltu â CLlLC a Llywodraeth Cymru i fynegi ein pryder ynghylch trothwy isel y dirwyon, ac awgrymu y dylid eu hadolygu.

Awgrymodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid y gallai fynd ymlaen â hynny a chysylltu â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) i weld a oedd unrhyw drafodaethau'n digwydd o ran y mater hwnnw. Awgrymodd, pan fyddai wedi cael ymateb, y gallai aelodau benderfynu ar y ffordd orau ymlaen.

PENDERFYNWYD:

Bod y Pwyllgor yn nodi Adroddiad Twyll Blynyddol 2022- 23, y mesurau oedd yn eu lle, y gwaith oedd yn cael ei wneud i atal a chanfod twyll a chamgymeriadau a'r diweddariad ar y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI).

Gofynnodd y Pwyllgor am gysylltu â’r DWP i wahodd cynrychiolydd i ddod i gyfarfod i amlinellu eu dull o ddelio â materion o dwyll a amheuir.

95. DIWEDDARIAD TRACIWR RHEOLEIDDIO

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Reolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus a'i bwrpas oedd rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am y Traciwr Rheoleiddio.

Roedd y pwyntiau allweddol fel a ganlyn:

- Mae'r traciwr rheoleiddio wedi cael ei ddiweddaru ar gyfer chwarteri 3 a 4 2022/23.
- Cafodd y gwelliannau y gofynnodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (GAC) amdanynt eu cwblhau.
- Ers yr adroddiad blaenorol i GAC ym mis Ionawr
    - ychwanegwyd 7 arolygiad.
    - Caewyd 33 o argymhellion.
    - Mae 82 o argymhellion ar y traciwr.
- Gofynnir i aelodau ystyried y ffordd orau i wella mecanweithiau dilynol ar gyfer adroddiadau rheoliadol a lleihau maint y traciwr.

Yn y drafodaeth a ddilynodd, gofynnodd yr aelodau i swyddogion dynnu argymhellion caeedig oddi ar y traciwr ac yn y dyfodol i dderbyn argymhellion ambr a choch yn unig ar y traciwr nesaf ym mis Ionawr 2024 yn ogystal â chrynodeb o'r argymhellion a gaewyd yn y cyfnod blaenorol.

Yn ogystal, fe wnaethant ofyn i’r pwyllgorau trosolwg a chraffu pwnc gael derbyn yr adroddiad yn cynnwys argymhellion â sgôr las a gwyrdd ddwywaith y flwyddyn fel y gallant graffu ar y sgorau hynny.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor

- wedi ystyried y pwyntiau cryno a'r traciwr rheoleiddio manwl a chodi unrhyw faterion oedd yn peri pryder am ddilyniant.

- wedi ystyried y mecanweithiau arfaethedig ar gyfer cyfeirio archwiliadau ac argymhellion ym mharagraff 3.1.
- wedi ystyried y dewisiadau ar gyfer lleihau maint y traciwr ym mharagraff 3.6.

96. ASESIAD RISG CORFFORAETHOL 2022-23

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Reolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus a'i ddiben oedd rhoi diweddariad ar ail adroddiad hunanasesu corfforaethol y Cyngor a'r dyfarniadau, a gofyn am sylwadau ar yr adroddiad drafft yn Atodiad 1.

Roedd y pwyntiau allweddol fel a ganlyn:

- Roedd yr adroddiad yn amlinellu proses a chanfyddiadau hunanasesiad y Cyngor ar gyfer 2022/23.
- Mae'r dull yn llawer mwy sefydledig mewn adroddiadau chwarterol rheolaidd nag yn y flwyddyn flaenorol.
- Y prif wahaniaethau rhwng yr adroddiad terfynol ac adroddiad terfynol y llynedd oedd y canlynol:
    - Cynhaliwyd sesiynau her yn gynharach.
    - Mae astudiaethau achos wedi eu cynnwys.
    - Mae ymdriniaeth fwy cynhwysfawr ar ymgynghori ac ymgysylltu yn ystod y flwyddyn wedi'i chynnwys.
    - Cyhoeddir data perfformiad blynyddol ochr yn ochr â'r hunanasesiad.
    - Mae'r ymgynghoriad arfaethedig yn fwy cynhwysfawr.
- Roedd y dyfarniadau hunanasesu fel a ganlyn:
    - Amcan Llesiant Un – Da.
    - Amcan Llesiant Dau – Digonol.
    - Amcan Llesiant Tri – Da.
    - Defnydd o adnoddau – Digonol.
    - Llywodraethu – Da.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r swyddogion ystyried dewisiadau ar gyfer asesiad cymheiriaid mwy rheolaidd neu her fewnol ychwanegol ar gyfer adroddiadau perfformiad yn eu cyfanrwydd (yn ogystal â hunanasesiad).

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor

- wedi adolygu a rhoi argymhellion ar gyfer newid i adroddiad hunanasesu corfforaethol 2022/23 yn Atodiad 1.
- wedi ystyried a yw'r ychwanegiadau i'r adroddiad ers 2021/22 yn ychwanegu gwerth at y ddogfen.

97. BLAENRAGLEN WAITH 2023-24

Cyflwynwyd yr adroddiad hwn gan y Rheolwr Grŵp – Prif Gyfrifydd.

Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio nifer o swyddogaethau a chyfrifoldebau craidd o fewn ei gylch gwaith.

Mae'n derbyn nifer o adroddiadau a chyflwyniadau drwy gydol y flwyddyn i'w alluogi i gyflawni'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau craidd hynny yn effeithiol ac i roi hyder iddo yn rheolaeth ariannol yr Awdurdod.

Er mwyn galluogi'r Pwyllgor i roi'r sicrwydd hwn ac i sicrhau ei fod yn cwmpasu ei ystod o gyfrifoldebau, cyflwynir Blaenraglen Gwaith ym mhob cyfarfod, yn nodi'r adroddiadau i'w cyflwyno mewn cyfarfodydd yn y dyfodol, i'w cymeradwyo neu eu diwygio, yn ôl yr angen.

Mae'r Flaenraglen Waith (FWP) wedi'i diweddaru ar gyfer 2023-24 i'w gweld yn Atodiad A.

Gofynnodd y Cadeirydd am eglurder ynghylch statws presennol yr ysgol y rhoddwyd barn o sicrwydd cyfyngedig iddi mewn adroddiad archwilio ac a drafodwyd yn y cyfarfod diwethaf. Nododd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid fod archwilwyr mewnol wedi dychwelyd i'r ysgol a'u bod yn y broses o ddrafftio adroddiad sydd wedi rhoi barn o sicrwydd rhesymol i'r ysgol. O'r herwydd, ni fyddai angen i'r ysgol dan sylw fynychu cyfarfod o'r pwyllgor yn y dyfodol.

At hynny, cadarnhaodd y Cadeirydd y câi Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ei gyflwyno i gyfarfod mis Medi'r Pwyllgor.

PENDERFYNWYD:

Bod y Pwyllgor wedi ystyried a chymeradwyo'r Flaenraglen Waith ar gyfer 2023-24.

Caiff drafft o Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ei gyflwyno i gyfarfod mis Medi 2023, a dylid ychwanegu hyn at Flaenraglen Waith 2023-24.

98. EITEMAU BRYS

Dim